

CALON TÂN



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

CERDDED YN EIN HESGIDIAU

TUDALEN 12



ANTARCTIC ANGELS

TUDALEN 4



PROSIECT
HALOGION
TUDALEN 8

PWYNTIAU GWEFRU
CERBYDAU TRYDAN
TUDALEN 10-11

GOLCHI CEIR ELUSEN
HWLFFORDD
TUDALEN 16

CYNNWYS

CLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASU	3
ANTARCTIC ANGELS	4
DIOGELWCH TÂN BUSNES	6
DIGWYDDIADAU AC AROLWG	7
PROSIECT HALOGION	8
PWYNTIAU GWEFRU CERBYDAU TRYDAN	10
BGC ABERTAWE	12
SWYDDI	14
GOLCHI CEIR ELUSEN HWLFFORDD	16
DIWRNODAU PROFIAD	17

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilometr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Dyma beth a'n cadwodd yn brysur y mis diwethaf:



CLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASU
SPORTS & SOCIAL CLUB

**Dewch i ymuno
HEDDIW
Become a member
TODAY**

I gael rhagor o wybodaeth am y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, anfonwch neges e-bost

For further information regarding the Sports & Social Club, please contact

Steve Philpott - S.philpott@mawwfire.gov.uk

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasu yn agored i holl aelodau presennol y Gwasanaeth, a'r aelodau sydd wedi ymddeol.

The Sports and Social Club is open to all current and retired members of the Service.

DIFFODDWRAGEDD TÂN YN MYND AR ANTUR I'R ANTARCTIG

Mae'r diffoddwr tân Rebecca Openshaw-Rowe o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Diffoddwr Tân Georgina Gilbert o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar fin cychwyn ar eu hynt i Antarctica ym mis Tachwedd eleni.

Bydd Rebecca a Georgina, sef yr [Antarctic Fire Angels \(AFA\)](#), yn mynd ar daith arwrol 1,130km o arfordir Antarctica i Begwn y De - a hynny'n hunangynhaliol, heb gymorth nac unrhyw un i'w tywys. Bydd y ddwy yn tynnu slediau cyflenwi sy'n pwysu tua 90kg yr un, a'r rheini'n cynnwys popeth y bydd ei angen arnynt i oroesi - pabell, bwyd a thanwydd.

Un o'r heriau mwyaf y bydd yn rhaid iddynt eu hwynebu fydd y tywydd, gyda'r tymheredd yn aml cyn ised â -50°C a chyflymder gwynt o dros 60mya, a bydd angen i'r ddwy deithio tua 25km bob dydd am 45 diwrnod i gwblhau'r daith.



Nod y daith yw pwysleisio'r hyn y gall menywod ei wneud ac ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol i ddilyn eu breuddwydion a'u huchelgeisiau. Wrth siarad am y daith, dywedodd y Diffoddwr Tân Rebecca Openshaw-Rowe o Orsaf Dân Port Talbot:

"Yn 2023, mae'n rhaid i fenywod fynd i'r afael â stereoteipiau a thuedd ar sail rhyw o hyd, ac rydym am newid naratif yr hyn mae'n ei olygu i fod yn ferch, a thanlinellu na ddylai rhywedd fod yn rhwystr i lwyddiant - i redeg fel merch, sgio fel merch, mynd ar hynt fel merch."

Ffurfiwyd yr Antarctic Fire Angels yn nigwyddiad Hyfforddi a Datblygu Menywod yn y Gwasanaethau Tân yn 2019, ac ers hynny rydym wedi mynd o fod yn ddechreuwr llwyr ac wedi dilyn rhaglen hyfforddi bedair blynedd heriol iawn i'n paratoi ein hunain."

Yn ogystal â pharatoi yn gorfforol ac yn feddyliol ar gyfer yr her, mae tîm yr AFA hefyd wedi treulio'r pedair blynedd diwethaf yn codi arian ar gyfer eu taith, a hynny trwy nawdd a thudalen Just Giving.

Mae eu [tudalen Just Giving](#) yn dal i dderbyn rhoddion yn y cyfnod olaf hwn cyn y daith. Bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei roi i ddewis elusen yr AFA, sef [Elusen y Diffoddwyr Tân](#).

Bydd yr AFAs yn gadael am Chile ar 10 Tachwedd, cyn mynd i Antarctica ar 18 Tachwedd i gychwyn ar eu taith. Mae pawb yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dymuno pob lwc i Rebecca a Georgina!



DIOGELWCH TÂN BUSNES

HYFFORDDIANT SENARIO YSTAFELL LLYS DIOGELWCH TÂN BUSNES

Ddydd Mawrth, 3 Hydref, cynhaliodd adran Diogelwch Tân Busnes (DBT) Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ddiwrnod hyfforddi ystafell llys lle cafodd rhai o'n rheoleiddwyr DBT brofiad o sut fyddai'n teimlo i roi tystiolaeth wrth gael eu croesholi gan fargyfreithiwr Diogelwch Tân ac aelodau o Awdurdod Tân y Gwasanaeth.

Mae gan adran DBT gyfrifoldeb i orfodi Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a sicrhau bod pob adeilad, lle ac adeiledd, ar wahân i gartrefi preifat unigol, yn cydymffurfio â'r Gyfraith. Mae hyfforddiant mewn sefyllfaoedd fel hyn yn angenrheidiol oherwydd, os oes angen erlyn, bydd ein Rheoleiddwyr Diogelwch Tân yn cael eu galw i roi tystiolaeth yn y Llys.

Llongyfarchiadau i'n holl Reoleiddwyr Tân Busnes sydd wedi ennill cymhwyster Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder yn ddiweddar, gan gynnwys Tystysgrif Lefel 3 mewn Diogelwch Tân (Archwilydd Tân), Diploma Lefel 4 mewn Diogelwch Tân (Arolygwyr Tân) a Diploma Lefel 5 mewn Dylunio Peirianeg Tân (Technegydd).

Da iawn bawb.



DIGWYDDIADAU

Diwrnod Agored Pontardawe - 28 Hydref

Golchi Ceir Gorseinon - 28 Hydref



AROLWG

DWEUD EICH DWEUD! HELPWCH I LUNIO DYFODOL EICH GWASANAETH TÂN AC ACHUB!

A wyddoch chi fod ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru bron yn 12,000 cilomedr sgwâr - sef bron i ddwy ran o dair o Gymru? Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth diogelwch i'r cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, a darpariaeth ymateb brys ar gyfer ardal canolbarth a gorllewin Cymru.

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn ar beth yw eich disgwyliadau o'r Gwasanaeth, yn ogystal â'r hyn sy'n bwysig i chi a'r hyn y credwch y dylem ei flaenoriaethu. Felly, beth am gymryd rhan yn y drafodaeth a rhannu eich barn ar y gwerth a roddwch ar y gwasanaethau a ddarparwn, a'r hyn y dylem ei wneud i'w diogelu?

Gwerthfawrogi eich cymorth a'ch cefnogaeth a bydd cwblhau'r arolwg hwn yn ein helpu i gasglu gwybodaeth am y cymunedau yr ydym yn ymgysylltu â nhw, a fydd yn ein helpu i deilwra ein gwasanaethau yn briodol, gan ein galluogi i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae'r ffurflen yn ddiennw ac yn gyfrinachol, felly ni fyddwch yn cael eich adnabod gan unrhyw wybodaeth a roddir. Os hoffech gael yr holiadur hwn mewn iaith/fformat gwahanol, cysylltwch â ni ar 0370 6060699.

Rydym yn cydnabod bod gwranddo ar eich barn yn hanfodol os yw'r Gwasanaeth am barhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol, effeithlon a gwell i'ch cadw chi a'ch teuluoedd yn ddiogel. Cymerwch ran yn y drafodaeth trwy rannu eich barn ar dyfodol eich Gwasanaeth Tân ac Achub. I gael gwybod mwy a chymryd rhan yn ein harolwg ar-lein ewch i'n gwefan www.tancgc.gov.uk/cym. Diolch am eich cefnogaeth a chyfranogiad.



HALOGION CONTAMINANTS



LANSIO PROSIECT HALOGION I WELLA DIOGELWCH DIFFODDWYR TÂN

Ar 1 Medi 2023, dechreuodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar brosiect i wella diogelwch diffoddwyr tân, gan fod astudiaethau diweddar wedi dangos bod diffoddwyr tân yn dod i gysylltiad â lefelau uwch o halogion mewn tanau, a hynny'n gysylltiedig â chyfraddau uwch o ganser a phroblemau iechyd meddwl.

Mae ymchwil wedi dangos bod achosion o ganser ymhlith diffoddwyr tân 35-39 oed 323% yn uwch nag yn y categori cyfatebol yn y boblogaeth yn gyffredinol.

Yn eu gwaith, gall diffoddwyr tân ddod i gysylltiad â halogion, sydd nid yn unig yn cynnwys cemegau mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â deunyddiau peryglus, ond cynhyrchion hyllogi mewn tanau hefyd. Mae llawer o'r peryglon sy'n wynebu diffoddwyr tân, yn enwedig mewn digwyddiadau, yn cael eu lliniaru wrth ddefnyddio Offer Anadlu ac Offer Diogelu Personol, ond mae mesurau eraill yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i atal a lleihau unrhyw gysylltiad â halogion yn eu gwaith bob dydd. Dros y chwe mis nesaf, bydd y Prosiect Halogion

yn edrych ar faterion fel offer amddiffyn diffoddwyr tân, gan ddatblygu systemau gwaith mwy diogel i leihau cymaint â phosibl ar y cysylltiad â halogion, monitro iechyd personél y gwasanaeth tân ac achub yn well, a mwy. Bydd diffoddwyr tân GTACGC yn cael hyfforddiant er mwyn gwella'r ddealltwriaeth ynglŷn â risg halogion ac unrhyw brosesau newydd y bydd angen eu dilyn. Yn arwain y prosiect mae'r Rheolwr Grŵp Simon Pearson, ac yn ei sylwadau ar lansiad y prosiect dywedodd y Rheolwr Grŵp Pearson:

"Mae iechyd a lles ein diffoddwyr tân o'r pwys mwyaf i'r Gwasanaeth ac rwy'n falch o fod yn chwarae rhan allweddol yn yr ymrwymiad hwnnw."

Edrychaf ymlaen at gwrdd â diffoddwyr tân ar draws ardal y Gwasanaeth yn ystod y misoedd nesaf i gyflwyno arferion gwaith mwy diogel ar gyfer aelodau ein criwiau."

Mae pecynnau hylendid wedi'u cyflwyno i ddiffoddwyr tân ddihalogi eu hunain ar ôl digwyddiadau, fel y gellir tynnu mwg a huddygl o ddillad ac offer amddiffynnol. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi buddsoddi mewn injanau tân newydd a fydd yn cynnwys cabiau wedi'u haddasu ar gyfer y criwiau, gyda lle storio ychwanegol i sicrhau nad oes unrhyw offer budr yn cael ei storio gydag aelodau'r criw yn dilyn digwyddiad.

Wrth siarad am y Prosiect Halogion, dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Iwan Cray:

"Mae diffoddwyr tân GTACGC yn ymroi i gadw eu cymunedau'n ddiogel, felly mae'n rhaid i ninnau roi blaenoriaeth i'w diogelwch a'u lles nhw yn ein harferion gwaith."

Mae canlyniadau'r ymchwil yn sboreiddio rhywun a byddwn yn gweithio'n agos gydag aelodau ein criwiau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dihalogi personol, gan sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei gadw'n lân a bod diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol yn cael ei feithrin gan bob Gorsaf Dân."

Mae'r Prosiect Halogion yn ymrwymiad a buddsoddiad hirdymor gan GTACGC i greu amodau gwaith mwy diogel ac edrychaf ymlaen at weld sut mae'n datblygu."

Dywedodd Cadeirydd Undeb Brigadau Tân (FBU) Canolbarth a Gorllewin Cymru, Deiniol Lloyd:

"Mae Undeb y Brigadau Tân yn croesawu'r prosiect newydd hwn, a fydd yn gweld ein Gwasanaeth yn dechrau darparu'r hyfforddiant a'r adnoddau hanfodol sydd eu hangen i amddiffyn diffoddwyr tân rhag halogion niweidiol."

Mae diffoddwyr tân wedi bod yn ymwybodol ers cryn amser o'r effeithiau y gall dod i gysylltiad â

thocsinau mewn tân eu cael ar eu hiechyd. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r FBU wedi bod yn arwain y ffordd gydag ymgyrch DECON, yn galw am amddiffyn rhag afiechydon galwedigaethol.

Bydd y fenter hon yn ychwanegu at yr ymchwil a gomisiynwyd gan yr FBU ac a gynhaliwyd gan yr Athro Anna Stec a'i thîm ym Mhrifysgol Canol Sir Gaerhirfryn. Mae diffoddwyr tân yn haeddu cael eu hamddiffyn rhag canser, ac mae llawer mwy i'w wneud. Rydym yn galw ar bob gwasanaeth tân yng Nghymru, a ledled y DU, i ddilyn yr esiampl flaenllaw hon a diogelu iechyd diffoddwyr tân yn eu gwaith."

Mae pwysigrwydd arferion gwaith diogel a'r risgiau sy'n gysylltiedig â rôl diffoddwr tân yn rhan o'r hyfforddiant cychwynnol a pharhaus y mae pob diffoddwr tân newydd yn ei gael. Yn ddiweddar, mae GTACGC wedi buddsoddi mewn cyfleuster hyfforddiant offer anadlu pwrpasol lle gall diffoddwyr tân hyfforddi mewn tanau go iawn, ond mae'r mwg i gyd yn cael ei ddal a'i atal rhag llygru'r atmosffer. Ymhlith y buddsoddiadau eraill mae peiriant sy'n gallu golchi setiau offer anadlu, sy'n lleihau'r angen i ddiffoddwyr tân a staff cynnal a chadw orfod gwneud hyn â llaw yn dilyn digwyddiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am Brosiect Halogion GTACGC, cysylltwch â'r Rheolwr Grŵp Simon Pearson ar s.pearson@tancgc.gov.uk.

PWYNTIAU GWEFRU CERBYDAU TRYDAN NEWYDD YM MHENCADLYS Y GWASANAETH TÂN AC ACHUB

Fel rhan o'i ymrwymiad i gyflawni Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi gosod pwyntiau gwefru newydd ar gyfer cerbydau trydan yn ei bencadlys.

Gan adeiladu ar berthynas gadarnhaol sy'n bodoli eisoes, mae GTACGC wedi gweithio mewn partneriaeth â [Pod Point](#), un o ddarparwyr seilwaith gwefru cerbydau trydan mwyaf blaenllaw'r DU sydd â dros 9,200 o gulfannau gwefru cyhoeddus.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae GTACGC wedi bod yn cynyddu nifer y cerbydau trydan yn gyson yn ei fflyd, ac yn fwyaf diweddar wedi cyflwyno [pum cerbyd Kia Sportage allyriadau isel](#) i'w fflyd ymateb brys.

Mae'r cyfleusterau gwefru Pod Point newydd, a osodwyd ym mis Gorffennaf 2023, yn cynnwys dau bwynt gwefru cyflym 150kW a dau bwynt gwefru dwbl 22kW, sy'n gallu gwefru hyd at wyth cerbyd ar un adeg, yn ogystal ag isorsaf 33,000-folt newydd i gyflenwi'r pŵer angenrheidiol ar gyfer y seilwaith gwefru.

Bydd y seilwaith gwefru newydd hwn nid yn unig yn darparu ar gyfer cerbydau trydan, ond bydd hefyd yn caniatáu ar gyfer ehangu yn y dyfodol.

Wrth siarad am y pwyntiau gwefru sydd newydd eu gosod, dywedodd Pennaeth Ystadau GTACGC, Huw Davies:

"Rydym yn falch ein bod wedi gweithio gyda Pod Point i osod y pwyntiau gwefru newydd hyn ym Mhencadlys y Gwasanaeth a Gorsaf Dân Caerfyrddin.

"Nid yn unig y bydd y rhain yn ein galluogi i wefru ein fflyd o gerbydau ymateb brys a chefnogol, byddant hefyd yn cynorthwyo'r Gwasanaeth yn ei ymdrechion i weithio tuag at ein hamcanion amgylcheddol ac i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Byddant hefyd yn rhan bwysig o'n nod i gyflawni Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, gan gyd-fynd â chynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru."

Dywedodd y Prif Swyddog Tân, Roger Thomas:

"Ein gweledigaeth o hyd yw Gwasanaeth Tân ac Achub lle mae'r defnydd cynaliadwy o adnoddau a materion amgylcheddol cysylltiedig yn rhan annatod o'n holl brosesau gwneud penderfyniadau a gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein cymunedau.

"Rydym yn gwbl ymwybodol bod ein gweithrediadau yn dylanwadu ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac felly rydym wedi ymrwymo i leihau unrhyw effeithiau niweidiol lle bynnag y bo cyllid, gweithrediadau ac adnoddau yn caniatáu."

Dywedodd Chris Cheetham, Pennaeth Adeiladu Masnachol a Gwerthiant y Sector Cyhoeddus:

"Rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar ein perthynas hirsefydlog â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) a chwarae rhan weithredol wrth eu helpu i gyrraedd eu targedau Sero Net uchelgeisiol. Mae'r bartneriaeth yn adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i gynaliadwyedd ac yn cyd-fynd â gweledigaeth Pod Point na ddylai teithio niweidio'r ddaear.

"Rydym yn falch iawn o gefnogi trosglwyddiad parhaus GTACGC i fflyd wyrddach a fydd yn creu effaith leol gadarnhaol."

[Darllenwch Astudiaeth Achos Pod Point Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yma.](#)

Mae mwy o wybodaeth am sut mae GTACGC yn gweithio i leihau ei effaith amgylcheddol, gan gynnwys ei Adroddiad Amgylcheddol a Chynaliadwyedd Blynyddol a'i Gynllun Adfer Natur [ar gael yma.](#)

Mae'r pwyntiau gwefru newydd ym Mhencadlys GTACGC i'w defnyddio gan bersonél y Gwasanaeth yn unig ac nid ydynt yn hygyrch i'r cyhoedd.



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS ABERTAW - CERDDED YN EIN HESGIDIAU.

Dydd Mawrth, 17 Hydref, cynhaliodd y Prif Swyddog Tân Roger Thomas ddigwyddiad 'Cerdded yn ein hesgidiau' fel rhan o Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, gan wahodd aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a phartneriaid cymunedol i'n Cyfleuster Hyfforddi yn Earlswood.

Trefnwyd y digwyddiad i ehangu ymwybyddiaeth o waith ein partneriaid a gwella rhwydweithiau, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'n cymunedau. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar dri phrif faes y Gwasanaeth: Ymateb Gweithredol, Atal (Diogelwch Cymunedol) ac Amddiffyn (Amgylchedd Adeiledig).

Cafwyd cyflwyniadau gan dimau Diogelwch Cymunedol a Diogelwch Tân Busnesau GTACGC

yn ystod y diwrnod, ynghyd â throsolwg o'n darpariaeth Ymateb Meddygol a'n strwythur sefydliadol. Cafodd amrywiaeth o arddangosiadau eu cynnal yn ystod y prynhawn, gyda chyfle i'r gwesteion gymryd rhan os mynnent, ac roedd hyn yn cynnwys arddangosiad byw o Fflachiad gan yr Hyfforddwyr Offer Anadlu. Cyflwynodd ein criw yng Ngorsaf Treforys arddangosiad 'dangos a dweud' am yr Ysgol Drofwrdd a llawer mwy.

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, gan roi cipolwg go iawn o'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel y mae heddiw i bawb oedd yn bresennol.

Dywedodd y Prif Swyddog Tân Roger Thomas:

"Rhoddodd ein digwyddiad 'Cerdded yn Ein Hesgidiau' a gafodd ei gynnal yn Earlswood gyfle i GTACGC ddangos i'n partneriaid y gwaith pwysig a wnawn ar draws ystod o feysydd gan gynnwys Atal, Amddiffyn ac Ymateb. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant digymysg a dywedodd nifer o'r rhai oedd yn bresennol nad oeddent yn ymwybodol o faint a chwmpas ein gwaith a sut rydym yn gweithio ar y cyd i leihau'r risg o fewn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rwy'n hynod ddiolchgar i'r holl staff a gyfrannodd er mwyn gwneud y diwrnod yn un cofiadwy ac yn werth chweil i'n partneriaid."



GWEITHIO GYDA NI!

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Diffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Buddion

- Cyfraddau cyflog cystadleuol - wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynnyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.1% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).
- Gwyliau Blynyddol hael - 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg - Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffretur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

GWELD SWYDDI GWAG CYFREDOL ➔



AR ALWAD
Recrwtio Diffoddwyr Tân
ON CALL
Firefighter Recruitment

DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?
Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr
tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!



CODI ARIAN

GOLCHI CEIR ELUSEN HWLFFORDD

Ddydd Sadwrn 1 Hydref, cynhaliodd criw o Orsaf Dân Hwlffordd ddigwyddiad golchi ceir er mwyn codi arian i Elusen y Diffoddwyr Tân a Fire Aid Uk. Er gwaethaf y tywydd gwlyb a gwyntog, llwyddon nhw i godi swm sylweddol o £575!

Gweithiodd y criw yn galed drwy'r dydd gyda gwên ar eu hwynebau. Roedd hi'n ymdrech dîm wych gan y criw Llawn Amser ac Ar-Alwad.

Hoffai'r criw ddweud diolch yn fawr i bawb sydd wedi cefnogi gyda'r paratodau ac ar y diwrnod, gyda diolchiadau arbennig i Gaffi Caddies am ddarparu'r bwyd.



DIWRNODAU PROFIAD

DARGANFYDDWCH A YW BOD YN DDIFFODDWR TÂN YN IAWN I CHI!

Wedi bod yn meddwl am ddod yn ddiffoddwr tân ers tro? Efallai nad ydych wedi llwyddo i fynd amdani eto! Mae mynd i Ddiwrnod Profiad y Gwasanaeth Tân yn ffordd wych o'ch helpu i wneud penderfyniad gwybodus cyn mynd ati i wneud cais.

Er bod angen cofrestru neu fynegi diddordeb ymlaen llaw ar gyfer rhai, mae eraill yn fwy anffurfiol ac ar ffurf diwrnod agored.

Y naill ffordd neu'r llall, eu diben yw meithrin ymwybyddiaeth ac annog aelodau'r gymuned i weld a oes ganddynt yr hyn y mae ei angen i ymuno â'r Gwasanaeth Tân ac Achub

Why not book yourself onto one of our experience days.

Please note: Bookings will go live the week leading up to each Experience day and will close 2 days before the event.

**DYDD SADWRN
TACHWEDD 25
EARLSWOOD
13:30 - 16:30**

**BOOK
NOW!**

**DYDD GWENER
RHAGFYR 8
EARLSWOOD
13:30 - 16:30**

**BOOK
NOW!**





Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

#MwyNaDimOndTanau
#MoreThanJustFires



www.tancgc.gov.uk

CYLCHGRAWN CALON TÂN - HYDREF 2023